# Estyniadau i drwyddedau radio cymunedol

Nodyn proses

Cyhoeddwyd: 2 Ebrill 2025
Fersiwn 1.0

# Ymestyn eich trwydded Radio Cymunedol analog

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r broses y dylai trwyddedeion radio cymunedol ei dilyn wrth wneud cais i ymestyn eu trwydded radio cymunedol analog.

## Y fframwaith cyfreithiol

Daeth Gorchymyn Radio Cymunedol 2025 ("Gorchymyn 2025") i rym ar 1 Ebrill 2025, ac mae'n darparu i adnewyddu trwyddedau radio cymunedol.

Mae Ofcom yn gallu ymestyn trwyddedau radio cymunedol am gyfnod o ddim mwy na phum mlynedd ar dri achlysur ar ôl ei gilydd, ac estyniad o ddim mwy na deng mlynedd ar ôl y tri estyniad blaenorol ar ôl ei gilydd.[1]

Rhaid gwneud cais am estyniad o fewn cyfnod sy'n dechrau 18 mis cyn y dyddiad y daw'r drwydded bresennol i ben, ac yn gorffen chwe mis cyn y dyddiad hwnnw.[2]

Pan fydd Ofcom yn cael cais i ymestyn trwydded radio cymunedol, bydd yn ymestyn y drwydded am gyfnod sy'n addas yn ei farn ef (heb fod yn fwy na phum mlynedd neu ddeng mlynedd fel y bo'r achos), os yw'n fodlon:

(a) bod deiliad y drwydded yn gallu cynnal y gwasanaeth am gyfnod yr estyniad; a

(b) y byddai deiliad y drwydded, pe bai'r drwydded yn cael ei hymestyn, mewn sefyllfa i gydymffurfio â'r amodau sydd wedi'u cynnwys yn y drwydded yn unol ag adran 106 o Ddeddf Darlledu 1990.[3]

Ar gyfer trwyddedau radio cymunedol, mae hyn yn cyfeirio yn y bôn at adran 'Prif Ymrwymiadau' trwydded pob gorsaf. Felly, wrth ystyried unrhyw gais i ymestyn trwydded radio cymunedol, bydd angen i ni ystyried y tebygolrwydd y bydd trwyddedai yn torri unrhyw un o'i Brif Ymrwymiadau.[4]

## Llenwi'r ffurflen gais

Mae'r ffurflen gais yn gofyn am y canlynol:

- Incwm a gwariant disgwyliedig yr orsaf am y flwyddyn yn dechrau o'r dyddiad y daw'r drwydded gyfredol i ben.
- Gwybodaeth am sefyllfa ariannol y trwyddedai adeg gwneud y cais.
- Ymrwymiad y trwyddedai i barhau i gyflawni ei Brif Ymrwymiadau (sydd wedi'u cynnwys yn y drwydded o dan adran 106 o Ddeddf Darlledu 1990 (fel y daw'r adran honno i rym yn rhinwedd Gorchymyn 2025).

Ar ben hynny, byddwn yn gofyn am y canlynol:

- Gwybodaeth am y cwmni sy'n dal y drwydded, h.y. ffurflen Datganiad Trwyddedai wedi'i llenwi a'i llofnodi. Rhaid cael hyn er mwyn i ni allu sicrhau bod y cwmni a'r cyfarwyddwyr yn cydymffurfio â'r gofynion perchnogaeth a'r gofynion eraill yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a Deddf Darlledu 1990.
- Y cyfrifon ariannol blynyddol diweddaraf.
- Gwybodaeth arall y gallwn wneud cais amdani, fesul achos, sy'n berthnasol i benderfynu ar y meini prawf uchod.

Mae angen yr wybodaeth ariannol, ynghyd â chyfrifon y cwmni ac adroddiadau ariannol blynyddol y trwyddedai sydd gennym ar ffeil, er mwyn ein helpu i ddeall sefyllfa ariannol y trwyddedai a'i allu i gynnal y gwasanaeth mewn cyfnod trwydded newydd.

Nid oes angen talu ffi ymgeisio i wneud cais am estyniad i drwydded gorsaf radio cymunedol.

## Yr wybodaeth y byddwn yn ei hystyried

Wrth ystyried cais i ymestyn trwydded, byddwn yn ystyried yr wybodaeth y mae trwyddedai'n ei hanfon atom fel y cyfeirir ato uchod (ffurflen gais, Datganiad Trwyddedai a chyfrifon cwmni), ac yn defnyddio'r dogfennau hyn i benderfynu ar y materion a nodir yn yr adran fframwaith cyfreithiol uchod.

Ar ben hynny, bydd Ofcom yn ystyried yr wybodaeth ganlynol sydd gennym ar ffeil:

- Datganiadau radio blynyddol y trwyddedai sy'n ymwneud â'i ddarpariaeth o'r Prif Ymrwymiadau a materion ariannol yn y gorffennol.
- Cofnod rheoleiddiol y trwyddedai o gydymffurfio â'i Brif Ymrwymiadau, i'r graddau y mae'n berthnasol i fodloni ein hunain bod y gwasanaeth yn gallu cydymffurfio â'r rhain drwy gydol cyfnod y drwydded newydd.

Fel rhan o'n hasesiad, gall Ofcom gysylltu â'r trwyddedai i gael rhagor o wybodaeth neu eglurhad. Gall hyn fod, er enghraifft, pan fydd angen i Ofcom egluro'r wybodaeth sydd yn y ffurflen gais neu'r dogfennau cysylltiedig.

## Diogelu Data

Rydym angen yr wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen hon er mwyn cyflawni ein dyletswyddau trwyddedu cyfreithiol. Darllenwch Ddatganiad Preifatrwydd Cyffredinol Ofcom www.ofcom.org.uk/about-ofcom/foi-dp/general-privacy-statement i gael rhagor o wybodaeth am sut mae Ofcom yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol a'ch hawliau cyfatebol.

## Gwneud penderfyniad

Byddwn yn ystyried ceisiadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y bydd yn cymryd amser weithiau i wneud penderfyniad os, er enghraifft, bydd angen i ni ofyn am eglurhad am gais neu faterion cysylltiedig. Pan fyddwn wedi gwneud penderfyniad, byddwn yn ysgrifennu at y trwyddedai. Ar ben hynny, byddwn yn cyhoeddi penderfyniadau am ymestyn trwyddedau yn niweddariad darlledu radio misol Ofcom a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â broadcast.licensing@ofcom.org.uk